Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ganolfan Ranbarthol Cymraeg i Oedolion De-Orllewin Cymru
**Academi Hywel Teifi**
**Prifysgol Abertawe**
**Parc Singleton**
**Abertawe**
**SA2 8PP**

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2011**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Iechyd ar Waith – Cyrraedd y Nod – The Corporate Standard – Health at Work

Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd – Green Dragon Environmental Standard

Buddsoddwyr Mewn Pobl | Aur

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y darparwr a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag Adran 77 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Sefydlwyd Canolfan Cymraeg i Oedolion De-Orllewin Cymru ym Mhrifysgol Abertawe ym Mai 2006 yn un o chwe chanolfan ranbarthol a sefydlwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i arwain y maes.

Mae'r Ganolfan yn gwasanaethu rhanbarth sy'n cwmpasu pedwar awdurdod lleol - Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe.  Mae gan y rhanbarth boblogaeth o 644,742.  Mae'n ardal eang ac mae nodweddion cymdeithasol ac economaidd yn amrywio'n fawr o ardaloedd trefol â dwyster poblogaeth uchel, yn bennaf yn ninas Abertawe a'r trefi a'r cymoedd diwydiannol cyfagos i gymunedau gwledig a gwasgaredig yng ngogledd siroedd Caerfyrddin a Phenfro.  Mae nifer o gymunedau yn y rhanbarth yn dioddef lefel uchel o amddifadedd, yn enwedig yn ardal Abertawe a threfi a chymoedd diwydiannol Castell-nedd Port Talbot a de-ddwyrain Sir Gaerfyrddin a threfi porthladd glannau'r Cleddau.

Ceir cryn amrywiaeth yn niferoedd a chanrannau'r rhai sy'n gallu siarad Cymraeg yn y rhanbarth.  Mae canrannau'r siaradwyr Cymraeg mewn wardiau unigol o fewn y rhanbarth yn amrywio o 74.9% yng nghymuned Quarter Bach, Sir Gaerfyrddin i 6.4% yn San Tomos, Abertawe.

Mae'r Ganolfan wedi sefydlu cytundebau darparu trydydd-parti gyda phum sefydliad arall, sef Coleg Gŵyr Abertawe, Coleg Castell-nedd Port Talbot, Cyngor Sir Caerfyrddin, Cyngor Sir Penfro a Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant.  Darperir tua hanner y ddarpariaeth ddysgu yn uniongyrchol gan y Brifysgol a'r hanner arall trwy gytundebau trydydd-parti.  Mae 145 o diwtoriaid yn gweithio ar y ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion yn y rhanbarth ac wedi'u cofrestru fel tiwtoriaid gyda'r Ganolfan.

Cynhelir cyfres o gyrsiau atodol ar draws y rhanbarth, gan gynnwys Sadyrnau Siarad a chyrsiau bloc dros nifer o ddyddiau ar benwythnosau neu yn ystod cyfnodau gwyliau.  Mae'r Ganolfan hefyd yn marchnata a darparu gwasanaeth cyrsiau Cymraeg yn y Gweithle er mwyn cwrdd â gofynion cyflogwyr yn y rhanbarth.

Yn 2009-2010 roedd cyfanswm ymrestriadau dysgwyr Cymraeg i oedolion yn amrywio o sefydliad i sefydliad ar draws y ganolfan ranbarthol gyda 2,282 ym Mhrifysgol Abertawe, 919 yng Nghyngor Sir Penfro 798 yng Nghyngor Sir Caerfyrddin, 416 yng Ngholeg Castell-nedd Port Talbot, 210 yng Ngholeg Abertawe, 168 ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, ac 83 o ddysgwyr yng Ngholeg Gorseinon.

Cyfanswm ymrestriadau ar gyfer 2009-10 y ganolfan ranbarthol oedd 4,876.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol y darparwr | Digonol |
|---|---|
| Rhagolygon gwella'r darparwr | Digonol |

### Perfformiad presennol

Mae nodweddion da yn perthyn i Ganolfan Cymraeg i Oedolion De-Orllewin Cymru, sy'n cynnwys:

- dysgwyr brwdfrydig;
- tiwtoriaid sy'n darparu safon dda o ofal, arweiniad a chymorth;
- ystod o gyrsiau Cymraeg ar bob lefel ar draws y rhanbarth;
- cysylltiadau da gydag amrywiaeth o asiantaethau a mudiadau gwirfoddol yn yr ardal;
- adlewyrchiad teg o gryfderau a gwendidau'r ddarpariaeth yn yr adroddiad hunanasesiad; a
- chyfatebiaeth dda ar y cyfan rhwng arsylwadau'r ganolfan ar ac arsylwadau Estyn.

Fodd bynnag, digonol yw'r perfformiad cyfredol oherwydd:

- amrywiaeth yn safonau a chyflawniad dysgwyr rhwng darparwyr ar draws y rhanbarth;
- diffygion mewn safonau addysgu mewn lleiafrif o ddosbarthiadau a arsylwyd;
- lefelau presenoldeb isel mewn lleiafrif o ddosbarthiadau;
- diffygion a welir yn y rhaglen fonitro a chefnogi tiwtoriaid gyfredol; a
- defnydd anghyson o gynlluniau dysgu unigol ar draws y ddarpariaeth.

### Rhagolygon ar gyfer gwella

Digonol yw rhagolygon gwella'r ganolfan ranbarthol oherwydd:

- yn ddiweddar bu'r ganolfan ranbarthol drwy broses o ailstrwythuro ac ar hyn o bryd mae'n rhy gynnar eto i weld effaith y systemau newydd ar waith;
- nid yw'r ganolfan wedi gwneud digon o gynnydd dros y tair blynedd ddiwethaf o ran cynyddu'r canran o ddosbarthiadau lle mae'r addysgu'n dda; ac
- mae'r ganolfan yn casglu a defnyddio ystod dda o ddata am gynnydd dysgwyr, ond mae'r broses o herio perfformiad a gosod targedau er mwyn gwella iddynt heb eu sefydlu'n gyson ar draws y rhanbarth.

## Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen i'r ganolfan ranbarthol :

A1 godi cyfraddau cwblhau a llwyddiant ar draws darparwyr y rhanbarth;

A2 cynyddu lefelau presenoldeb yn y dosbarthiadau lle maent yn isel;

A3 gwella systemau ansawdd er mwyn sicrhau tracio cynnydd a dilyniant grwpiau gwahanol o ddysgwyr yn fwy effeithiol ar draws y rhanbarth;

A4 sicrhau bod staff addysgu yn derbyn mwy o ymweliadau i'w cefnogi; a

A5 gwella cyfathrebu rhwng y darparwr a darparwyr trydydd parti y rhanbarth ar lefel strategol.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y ganolfan ranbarthol yn cynnwys ei ymateb i'r argymhellion uchod yn y cynllun datblygu ansawdd a ddarperir i Adran Addysg a Sgiliau. Bydd y darparwr yn derbyn llythyr gan Estyn i ddweud y bydd Estyn yn cynnal ymweliad monitro ymhen tua 12 mis.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

### Safonau: Digonol

Mae cyfanswm ymrestriadau ar gyrsiau Cymraeg i oedolion yn y rhanbarth wedi codi o 4772 yn 2007-2008 i 4876 yn 2009-2010. Yn gyffredinol, mae mwyafrif o ddysgwyr yn cwblhau eu cyrsiau yn llwyddiannus a gwelir tueddiad cadarnhaol yn y canlyniadau dros y tair blynedd diweddaf o 54% yn 2007-2008 i 75% yn 2009-2010.

Yn ôl y data am 2009-2010 mae cryn amrywiaeth yn y cyfraddau cwblhau fesul cwrs ar draws y rhanbarth. Mae'r cyfraddau cwblhau yn tueddu i fod yn is ar y cyrsiau Mynediad Dwys (51%) a chyrsiau Mynediad 1 (58%) na'r cyrsiau lefelau uwch. Mae cyfraddau cwblhau'r cyrsiau lefelau uwch, sef cyrsiau Canolradd, Sylfaen ac Uwch tua 80%. Gwelir amrywiaeth yn y cyfraddau cwblhau hefyd fesul darparwr. Mae'r cyfraddau gorau yng Ngholeg Gorseinon (78%), Cyngor Sir Penfro (72%) a Choleg Chastell-nedd Port Talbot (71%), tra bod cyfraddau cwblhau yn ychydig yn is yng Ngholeg Abertawe (66%) a Phrifysgol Abertawe (66%).

Mae mwyafrif o ddysgwyr yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu. Maent yn datblygu eu medrau iaith a chyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg yn dda. Ar y cyfan mae mwyafrif o ddysgwyr yn dwyn i gof ffurfiau a ddysgwyd yn flaenorol yn dda, yn ynganu'n gywir ac yn siarad yn gynyddol hyderus yn ôl eu profiad a lefel y dosbarth. Manteisia lleiafrif o ddysgwyr ar gyfleoedd dysgu anffurfiol y tu allan i'r dosbarthiadau er mwyn atgyfnerthu eu medrau cyfathrebu. Mewn lleiafrif o ddosbarthiadau araf yw cynnydd y dysgwyr, maent yn dibynnu'n drwm ar y tiwtor i gwblhau'r tasgau ac maent yn ddihyder i gyfathrebu yn y Gymraeg yn y dosbarth.

Mae medrau dysgu annibynnol mwyafrif o ddysgwyr ar y cyfan yn dda. Maent yn defnyddio adnoddau ychwanegol fel rhaglenni teledu, y we ac ystod o ddeunyddiau a recordiwyd yn fasnachol i ategu eu dysgu. Mae lleiafrif o ddysgwyr yn manteisio ar nifer o gyfleoedd dysgu anffurfiol a gynigir gan y ganolfan ranbarthol a'i phartneriaid. Mae'r dysgwyr hyn yn ymarfer eu medrau iaith ac maent yn elwa'n fawr o'r profiadau. Lleiafrif o ddysgwyr sy'n defnyddio eu cynlluniau dysgu unigol yn dda. Ar y cyfan nid yw'r dysgwyr yn deall yn llawn sut gall eu cynlluniau dysgu unigol eu helpu i gynllunio eu dysgu eu hunain. Yn aml teimlant nad yw'r cynlluniau hyn yn berthnasol iddynt.

Ar hyn o bryd nid oes digon o dystiolaeth ar gael gan y darparwr i ddadansoddi'r gwahaniaethau mewn perfformiad grwpiau gwahanol o ddysgwyr, ond ni welwyd unrhyw wahaniaethau mewn perfformiad unrhyw garfan o ddysgwyr penodol yn ystod yr ymweliadau i ddosbarthiadau.

### Lles: Da

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn mwynhau'r gwersi, yn frwdfrydig ynglŷn â'u dysgu ac yn cymryd rhan weithredol ymhob agwedd o'r gwaith. Maent yn meddwl bod gwersi yn hwyl ac yn ddiddorol. Yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau, mae lefelau cymhelliant y dysgwyr yn uchel ac maent yn gwneud defnydd cynhyrchiol o'u hamser trwy gydol

y sesiwn. Maent yn mwynhau dysgu ochr yn ochr â dysgwyr eraill o grwpiau oedran gwahanol. Bron yn ddieithriad gwelir bod gan ddysgwyr lefelau uchel o barch at ei gilydd ac maent yn barod iawn i helpu ei gilydd ar draws y cenedlaethau yn y gwersi.

Mae mwyafrif o ddysgwyr yn ddigon hyderus i ddefnyddio'r iaith a ddysgwyd yn y dosbarthiadau Cymraeg yn y gymuned, pan fo cyfle ganddynt.

Ar y cyfan mae dysgwyr yn ymwybodol o faterion iechyd a diogelwch ac maent yn mwynhau dysgu mewn amgylchedd diogel a chefnogol. Serch hynny, nid yw lefelau presenoldeb yn ddigon uchel mewn lleiafrif o'r dosbarthiadau ar draws y ddarpariaeth.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Digonol |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae rhaglen gynhwysfawr a chydlynol o ddosbarthiadau cymunedol yn cael ei chynnig ar draws y rhanbarth mewn cydweithrediad â'r darparwyr trydydd-parti.

At ei gilydd, mae gan ddysgwyr yr opsiwn i fynychu dosbarthiadau unwaith yr wythnos neu ddarpariaeth ddwys o fewn pellter rhesymol ar draws y rhanbarth. Yn ogystal â'r ddarpariaeth arferol o gyrsiau dwys cynigir cwrs dwyster ychwanegol 'Mynediad Plus' 10 awr yr wythnos yn Abertawe a Chaerfyrddin. Mae'r rhwydwaith o gyrsiau 'Siawns am Sgwrs' yn rhoi cyfleoedd i ddysgwyr â lefelau uwch o feistrolaeth ar y Gymraeg i ehangu eu defnydd o'r iaith mewn cyd-destunau cyfoes. Mae'r ddarpariaeth hefyd yn cynnwys rhaglen o Sadyrnau Siarad ar draws y rhanbarth.

Mae'r ganolfan yn darparu rhaglen o bron i 30 o ddosbarthiadau wedi eu teilwra i ateb gofynion 18 o gyflogwyr lleol. Serch hynny, nid yw'r ganolfan yn ddigon rhagweithiol o ran targedu cyflogwyr i ymestyn y ddarpariaeth ymhellach. Mae'r ganolfan hefyd yn darparu rhaglen helaeth o ddosbarthiadau Cymraeg i staff Ysgol Uwchradd Y Dyffryn, yn Nhai Bach ac Ysgol Uwchradd Yr Olchfa, yn Abertawe.

Mae'r ganolfan yn gweithio ar y cyd â Phrifysgol Y Drindod Dewi Sant a Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddarparu cwrs sabothol newydd ar lefelau mynediad a sylfaen i athrawon cynradd Cymraeg ail iaith yn siroedd Caerfyrddin a Phenfro.

Mae'r ganolfan yn chwarae rhan allweddol yng nghynlluniau Prifysgol Abertawe i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ar gyrsiau a datblygu ethos Gymraeg y brifysgol yn gyffredinol. Sefydlwyd dosbarthiadau Cymraeg ar lefelau mynediad a sylfaen, sy'n cael eu mynychu gan staff academaidd a gweinyddol. Mae darpariaeth benodol hefyd i Gymry Cymraeg ar staff y brifysgol sydd am gynyddu eu hyder yn eu defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle.

Mae'r ganolfan yn gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth gyda menter iaith Cwm Gwendraeth, mudiad Twf ac ysgolion cynradd i ddatblygu'r ddarpariaeth o gyrsiau Cymraeg i'r Teulu a Chymraeg o'r Crud. Mae niferoedd cynyddol o rieni yn manteisio ar y ddarpariaeth hon yn sgil marchnata'n uniongyrchol.

Mae gweithgareddau i hyrwyddo defnydd dysgwyr o'r Gymraeg yn cynnwys tasgau pwrpasol yn neunyddiau dysgu'r cyrsiau dwys. Mae'r gyfres o ffeiriau cymdeithasau, sef arddangosfeydd a drefnir gan gymdeithasau Cymraeg lleol mewn mannau canolog, ar draws y rhanbarth hefyd yn darparu cyfleoedd da i ddysgwyr canolradd ac uwch i ddod i gysylltiad â chymdeithasau Cymraeg yn lleol. Er hynny, mae ychydig o ddysgwyr o hyd, yn enwedig ar gyrsiau lefelau is, yn nodi nad oes ganddynt ddigon o gyfleoedd i ddod i gysylltiad â siaradwyr Cymraeg lleol.

Mae gwaith ymchwil diweddaraf y ganolfan 'Canolfannau Cymraeg a Rhwydweithiau Cymdeithasol' yn brosiect blaengar. Mae'r prosiect hwn yn archwilio cyfraniad a thraweffaith y rhwydweithiau sy'n cynnig cyfleodd i'r dysgwyr gynyddu eu cyswllt â'r Gymraeg y tu hwnt i'r dosbarthiadau Cymraeg.

Mae'r dosbarthiadau 'Siawns am Sgwrs' yn darparu cyfleoedd helaeth i ddysgwyr ehangu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o hanes, gwleidyddiaeth a diwylliant ar lefel genedlaethol a lleol.

Dechreuwyd ar y gwaith o gryfhau'r sylw i ddatblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang drwy ymgorffori cyfleoedd yn y deunyddiau dysgu ar y cwrs sylfaen dwys. Hefyd mae arweiniad wedi ei roi ar yr agweddau hyn fel rhan o'r rhaglen hyfforddiant staff.

**Addysgu: Digonol**

Mae tiwtoriaid yn sefydlu perthynas dda â'r dysgwyr ac mae dosbarthiadau'n cael eu cynnal mewn amgylchedd cynhaliol. Mae cynhaliaeth ac anogaeth barhaus yn nodwedd o'r gwaith ar draws dosbarthiadau.

Caiff y rhan fwyaf o wersi eu cynllunio'n ofalus i gynnwys dilyniant o weithgareddau dysgu pwrpasol. Mae llawer o diwtoriaid yn gwneud defnydd priodol o'r Gymraeg fel cyfrwng cyfarwyddo a chyfathrebu â'r dysgwyr. Lle mae'r addysgu'n fwyaf effeithiol, mae dysgwyr yn cael eu hannog i gyfrannu'n fywiog a digymell ac i estyn eu defnydd o'r iaith.

Mewn lleiafrif o ddosbarthiadau, mae diffygion arwyddocaol yn yr addysgu sy'n amharu ar gynnydd dysgwyr yn y gwersi. Yn aml, yn yr achosion hyn, nid oes digon o atgyfnerthu gafael dysgwyr ar y patrymau dan sylw yn y wers. O ganlyniad, nid oes digon o'r dysgwyr yn gwneud cynnydd yn eu gallu i ddefnyddio'r patrymau yn fwy annibynnol erbyn diwedd y wers. Mae'r cyfleoedd i weithio'n lled annibynnol mewn parau'n amrywio'n ormodol. Yn y dosbarthiadau hyn, nid oes digon o gyfleoedd i'r dysgwyr ddefnyddio'r hyn a ddysgwyd mewn gwersi blaenorol mewn tasgau llai strwythuredig.

Mae gan fwyafrif y tiwtoriaid ddealltwriaeth dda o'r cynnydd a wna dysgwyr ac maent yn rhoi cyngor defnyddiol ar sut i wella. Mae'r tiwtoriaid yn cywiro dysgwyr ar lafar mewn modd cefnogol. Mae ychydig o enghreifftiau o arfer dda lle mae dysgwyr yn cywiro gwaith eu hunain a gwaith ei gilydd. Gan mwyaf, mae marcio gwaith ysgrifenedig dysgwyr yn gyfyngedig i gywiro gwallau iaith a heb fod yn gwneud digon i nodi'n gryno'r camau nesaf i'w datblygu. Nid yw'r cynlluniau dysgu unigol yn cael

eu defnyddio'n ddigonol i ddarparu adborth cyson i'r dysgwyr ar eu cynnydd a'r hyn sydd angen ei wneud i wella.

Mae'r ganolfan wedi arwain ar gyflwyno achredu trwy lwybr credydau CBAC trwy beilota'r cynlluniau achredu ar lefelau mynediad, sylfaen a chanolradd.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae tiwtoriaid yn darparu lefel dda o gymorth unigol i ddysgwyr yn eu dosbarthiadau i sicrhau bod y dysgwyr yn mwynhau'r gwersi ac yn llwyddo ar y cyrsiau. Mae nifer o diwtoriaid yn trafod iechyd, lles a bwyta'n iach yn eu gwersi. Fodd bynnag, nid yw'r bartneriaeth yn gwneud digon i hyrwyddo'r maes hwn ar draws y rhanbarth.

Mae gwybodaeth a chyngor ar gyfer dysgwyr i'w helpu i ddewis cwrs a lleoliad cywir yn dda. Mae gwybodaeth eang am y cyrsiau, cyngor cyffredinol, iechyd a diogelwch, lles, polisïau, a gwybodaeth am gydraddoldeb ar wefan y brifysgol ac ar wefannau'r partneriaid. Mae llyfrynnau gwybodaeth defnyddiol iawn ar gael i ddysgwyr sy'n dangos ystod eang o gyrsiau ar draws yr ardal. Maent yn cynnwys gwybodaeth am gyrsiau mynediad, cyrsiau dwys, cyrsiau i'r teulu a chyrsiau yn y gweithle. Dosbarthwyd y llyfryn gwybodaeth i bob tŷ yn y rhanbarth. Mae tiwtoriaid yn darparu cyngor priodol i ddysgwyr wrth iddynt drosglwyddo rhwng cyrsiau. Mae'r partneriaid yn darparu cymorth ychwanegol priodol i ddysgwyr sydd ag anghenion arbennig, er enghraifft, darparu offer arbennig i ddysgwyr sydd â nam ar y clyw.

Mae gan y ganolfan a'r partneriaid weithdrefnau a pholisïau priodol ar gyfer sicrhau diogelu oedolion sy'n agored i niwed ac mae staff yn gwybod am y trefniadau. Mae'r trefniadau ar gyfer delio a materion amddiffyn a diogelu oedolion a threfniadau ar gyfer hyfforddi staff yn briodol.

**Yr amgylchedd dysgu: Digonol**

Mae tiwtoriaid yn sefydlu ethos cynhwysol a chroesawgar yn eu dosbarthiadau. Nid yw'r tiwtoriaid yn gwahaniaethu rhwng dysgwyr ar unrhyw sail ac mae llwybrau dilyniant clir i ddysgwyr sydd yn agored i bawb. Darperir gwasanaeth cyfartal ar gyfer pob dysgwr beth bynnag yw eu cefndir. Mae systemau effeithiol ar waith i hyrwyddo a monitro ymrestriadau dysgwyr o gefndir ethnig lleiafrifol, chwilwyr lloches a ffoaduriaid.

Ar y cyfan, mae'r mwyafrif o adeiladau a'r adnoddau dysgu yn y brifysgol ac allan yn y gymuned yn addas at eu diben, yn groesawgar ac yn agos at ble mae mwyafrif o ddysgwyr yn byw. Yn ystod yr arolygiad hwn roedd yr adain sy'n gartref i'r Ganolfan ac i Academi Hywel Teifi yn y Brifysgol ar gau oherwydd gwaith adeiladu.

Mae mynediad i'r adeiladau ac i'r dosbarthiadau yn addas ar gyfer dysgwyr ag anghenion arbennig. Mae cyfleusterau cymdeithasol yn addas ym mwyafrif y canolfannau. Mae mwyafrif o'r ystafelloedd dysgu yn addas, ond nid yw nifer sylweddol o ddosbarthiadau dysgu yn creu amgylchedd Cymreig nac yn arddangos siartiau iaith i gynorthwyo dysgwyr.

Nid oes digon o gyfleusterau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu ar gael i ddysgwyr ym mhob canolfan gymunedol. Ychydig iawn o ddefnydd o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu a wneir gan ddysgwyr yn y canolfannau hyn i ddod o hyd i wybodaeth neu i adnoddau dysgu ychwanegol.

Mae digon o adnoddau priodol ar gyfer dysgu ac addysgu yn y canolfannau i gefnogi'r dysgu. Maent yn cynnwys gwerslyfrau, ffeiliau unigol, gemau addas, byrddau gwyn rhyngweithiol, cryno ddisgiau a chardiau fflach. Serch hynny, anaml y defnyddir yr holl ystod o ddeunyddiau hyn i ategu'r dysgu yn y gwersi. Ar y cyfan nid oes digon o gyfleoedd i ddysgwyr i weithio'n annibynnol nac i ddefnyddio adnoddau ychwanegol i wneud gwaith ymchwil yn y gwersi.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae cynllun strategol y ganolfan yn pennu nodau ac amcanion clir i gynyddu'r nifer o siaradwyr Gymraeg ledled y rhanbarth ac yn genedlaethol. Mae'r cynllun yn ystyried argymhellion arolygiadau dysgu oedolion yn y gymuned Estyn yn y rhanbarth ac wedi ymateb iddynt. Mae'r cynllun strategol yn cael effaith dda ar gynyddu'r ddarpariaeth a gynigir. Serch hynny, nid yw'r ganolfan yn defnyddio'r cynllun strategol yn ddigon effeithiol i wella ansawdd ar draws y rhanbarth.

Mae'r ganolfan ranbarthol wedi sefydlu strwythur priodol i drefnu'r ddarpariaeth a chynnig cyfleoedd da i ddysgwyr fynychu cyrsiau Cymraeg i oedolion ar draws y rhanbarth. Mae'r strwythur hon yn adlewyrchu'r strwythur darpariaeth Cymraeg i oedolion yn genedlaethol. Mae'r ganolfan wedi sefydlu strwythur staff priodol er mwyn sicrhau'r ddarpariaeth ym mhob ardal, rheoli busnes a chynnig arweiniad i bartneriaid.

Mae'r ganolfan ranbarthol wedi creu partneriaethau clir gyda darparwyr trydydd-parti i sicrhau'r ddarpariaeth eang o gyrsiau Cymraeg i oedolion ar bob lefel. Serch hynny, ar hyn o bryd nid yw'r ganolfan yn gweithio yn ddigon effeithiol gyda darparwyr trydydd-parti i sicrhau eu cyfraniad yn y broses gynllunio strategol. O ganlyniad maent yn colli profiad ac arbenigedd y darparwyr trydydd-parti yn y broses o gynllunio'n strategol ac nid oes gan bob partner ddigon o berchnogaeth ar y cynllun strategol. Mae'r ganolfan hefyd yn colli cyfle i gynnwys amrywiadau lleol yn y cynllun.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae swyddogion canolfan ranbarthol y de-orllewin yn casglu ystod o ddata yn dda ac maent yn defnyddio'r data i fonitro'r ddarpariaeth. Maent yn monitro perfformiad pob ardal yn ôl ymrestriadau, cwblhau a chyflawnwyr. Fodd bynnag, tra bo'r ganolfan yn cymharu ei chanlyniadau gyda chanolfannau rhanbarthol Cymraeg i oedolion eraill, nid yw'r swyddogion yn defnyddio'r data hwn yn effeithiol i godi perfformiad dysgwyr sydd ar gyrsiau tebyg ar draws y rhanbarth. Nid yw'r ganolfan yn tracio cynnydd grwpiau gwahanol o ddysgwyr sy'n mynychu cyrsiau darparwyr gwahanol yn y

rhanbarth, er enghraifft dysgwyr sy'n siarad iaith estron fel mamiaith a dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol a dysgwyr.

Mae cynllun datblygu ansawdd y ganolfan yn ddogfen strategol, mae'n gynhwysfawr ac yn talu sylw priodol i ganlyniadau'r broses hunanarfarnu. Mae'r ganolfan yn gweithredu ar argymhellion arolygiadau dysgu oedolion yn y gymuned Estyn yn y rhanbarth.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn gynhwysfawr ac yn glir. Mae'r broses o hunanarfarnu yn cynnwys barn dysgwyr a chyfraniad oddi wrth y darparwyr trydydd-parti. Mae'r adroddiad yn adnabod y prif gryfderau a phrif feysydd i'w gwella yn y ddarpariaeth fesul cwestiwn allweddol. Gwelir cyfatebiaeth glir rhwng canfyddiadau adroddiad hunanarfarnu'r ganolfan ranbarthol a chanfyddiadau'r arolygiad.

Mae'r ganolfan wedi sefydlu proses o arsylliadau tiwtoriaid rheolaidd. Mae'r ganolfan yn bwriadu arsyllu 50% o diwtoriaid bob blwyddyn, ond ni chyrhaeddodd y targed y llynedd. Fodd bynnag, tra bo'r arsyllwyr yn talu sylw digonol ar berfformiad y tiwtor, nid oes digon o bwyslais ar hyn o bryd ar gynnydd na safonau'r dysgwyr. Mae'r argymhellion yn tueddu i osod y pwyslais ar wella dulliau addysgu'r tiwtor, yn hytrach na chanolbwyntio ar gynnydd a safonau'r dysgwyr ym mwyafrif o adroddiadau arsylliadau a welwyd.

Ar y cyfan nid yw'r broses sicrhau cysondeb yn ddigon effeithiol i fynd yr afael â'r gwahaniaethau sy'n bodoli rhwng safonau dysgwyr a thiwtoriaid ar draws y rhanbarth. O ganlyniad nid yw'r ganolfan wedi gwneud digon o gynnydd dros y tair blynedd ddiwethaf o ran cynyddu'r canran o ddosbarthiadau lle mae safon yr addysgu'n dda.

### Gweithio mewn partneriaeth: Digonol

Mae'r ganolfan ranbarthol yn cydweithio yn dda gyda phartneriaid fel Llywodraeth Cynulliad Cymru, Prifysgol Abertawe, darparwyr trydydd-parti, Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned leol, mentrau iaith, ac ysgolion ar lefel leol. Mae gan y ganolfan ranbarthol swyddogion cyflogedig wedi eu lleoli ym mhob un o'r pedair sir yn y rhanbarth. Mae'r ganolfan hefyd yn trefnu cyrsiau yn y gweithle a chyrsiau i staff y brifysgol a staff ysgolion uwchradd yr Olchfa a Dyffryn.

Mae'r ganolfan ranbarthol wedi sefydlu partneriaethau strategol gyda darparwyr trydydd-parti i ddarparu rhaglen gynhwysfawr o gyrsiau ar draws y rhanbarth. Mae pob darparwr trydydd parti yn cyfrannu at gynnal y rhaglen hon trwy gytundeb. Mae'r ganolfan yn cydgynllunio'r rhaglen hon yn ogystal â darparu cyfran sylweddol o gyrsiau yn uniongyrchol.

Mae darparwyr trydydd-parti'r rhanbarth yn ddarparwyr pwysig ac maent yn dod ag ystod o adnoddau ychwanegol i'r ganolfan. Maent hefyd yn ymestyn dylanwad y ganolfan ar draws y rhanbarth drwy gynnig cynrychiolaeth leol iddi. Nid yw'r ganolfan bob amser yn gweithio'n ddigon effeithiol gyda darparwyr trydydd-parti fel partneriaid strategol ar y cyd. O ganlyniad, mae'r ganolfan yn colli safbwynt strategol y darparwyr trydydd-parti a'r holl brofiad sydd ganddynt yn gweithio yn yr ardal leol.

Tra bo pob darparwyr yn cael cyfrannu at y broses gwella ansawdd, nid yw’r ganolfan yn defnyddio arbenigedd pob darparwyr yn ddigon o effeithiol. Er enghraifft, nid oes digon o arsylliadau ar draws darparwyr gwahanol na digon o gymedroli gwaith y dysgwyr ar draws darparwyr.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae’r ganolfan ranbarthol yn rheoli ei hadnoddau yn effeithiol. Defnyddir gwybodaeth feincnodi gan reolwyr yn ddigonol i gyfeirio adnoddau at feysydd i wella safonau ar draws y rhanbarth. Serch hynny, ni wneir digon o’r wybodaeth feincnodi i gymharu ardaloedd y rhanbarth o safbwynt lefelau er mwyn gosod nodau a thargedau i wella ansawdd.

Mae’r ganolfan wedi’i staffio’n briodol i gyflwyno’r cwricwlwm ac fe’u defnyddir yn effeithiol i sicrhau'r defnydd gorau o’u hamser a’u medrau. Ar y cyfan mae’r ganolfan yn bodloni anghenion datblygu staff i gwrdd â gofynion y cwricwlwm, er ni wneir digon i fanteisio ar arbenigedd staff y darparwyr trydydd parti. Ar hyn o bryd nid yw’r ganolfan yn cynnig digon o gefnogaeth i diwtoriaid dibrofiad.

Mae’r ganolfan yn gweithio’n ddigonol â darparwyr trydydd-parti i sicrhau bod adnoddau dysgu priodol ar gael i bawb sy’n dysgu ar draws y rhanbarth. Serch hynny, mae lleiafrif o’r adnoddau hyn yn hen ac angen eu diweddaru.

Mae’r ganolfan yn sicrhau bod darparwyr trydydd-parti yn cael eu hariannu’n ddigonol i gynnig darpariaeth addas ar draws y rhanbarth.

Mae’r ganolfan yn darparu gwerth digonol am arian ar gyfer ei dysgwyr.

## Atodiad 1

**Boddhad dysgwyr**

Derbyniodd Estyn 321 o holiaduron wedi'u llenwi gan ddysgwyr. Llenwodd dysgwyr holiaduron yn wirfoddol a'u cwblhau yn ystod Chwefror a Mawrth 2011. Gofynnodd Estyn i Ganolfan Ranbarthol De-Orllewin Cymru gynnwys ystod o ddysgwyr o'u darpariaeth gyfredol.

Roedd dysgwyr yn gadarnhaol iawn ynglŷn â'r ddarpariaeth a gânt gan y darparwyr o fewn y ganolfan ranbarthol. Mae bron pob un o'r ymatebwyr, yn mwynhau'r dysgu ac yn ystyried eu bod yn cael eu haddysgu a'u cefnogi'n dda gan eu tiwtor. Maent yn credu eu bod yn gwneud cynnydd da a bod eu dysgu yn helpu iddynt gyflawni eu hamcanion. Byddent yn argymell y darparwr i bobl eraill.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn ystyried bod eu dysgu yn helpu ymestyn eu gwybodaeth a'u medrau. Maent yn teimlo bod y cwrs fel yr oeddent yn ei ddisgwyl a rhoddwyd gwybodaeth dda iddynt am eu rhaglenni dysgu. Cred y rhan fwyaf o ddysgwyr bod y staff yn rhoi adborth defnyddiol ar sut i wella eu gwaith. Maent yn teimlo'n ddiogel yn y dosbarth ac mae'r dysgwyr yn cynorthwyo ei gilydd yn dda.

Nid yw lleiafrif o ddysgwyr yn credu bod eu dysgu wedi helpu i wella eu hagwedd at gadw'n iach a diogel.

# Atodiad 2

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Ann Jones | Arolygydd Cofnodol |
| Liam Kealy | Arolygydd Tîm |
| Iolo Dafydd | Arolygydd Tîm |
| Huw Collins | Arolygydd Tîm |
| Geraint Wilson-Price | Arolygydd Cymheiriaid |
| Aled Davies | Enwebai’r Darparwr |